**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am tan 12.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3/4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**GWERTHFAWROGI’N TREFTADAETH**

**Diben a Chrynodeb**

Adrodd ar Adolygiad Pum-mlynedd Cadw a hysbysu’r Pwyllgor o’r fenter ehangach sydd ar droed bellach i nodi blaenoriaethau a chyfeiriadau i’r dyfodol ar gyfer ein rheolaeth o’r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, a fydd yn arwain at ymgynghoriad yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Amseriad**

I’w ystyried yng nghyfarfod 4 Rhagfyr.

**Cefndir ac Ystyriaeth**

Lansiwyd Adolygiad Pum-mlynedd Cadw y llynedd, ac – yn ôl natur adolygiadau o’r fath – canolbwyntiodd ar strwythur a gweithrediadau Cadw ei hun. Fodd bynnag, manteisiwyd ar y cyfle yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig i wahodd sylwadau ar faterion ehangach sy’n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol. Trafodwyd adroddiad drafft ar yr adolygiad pum-mlynedd gan yr aelodau ar 15 Mai ym Mlaenafon- atodir copi o’r crynodeb gweithredol er hwylustod.

Yn dilyn hynny cadeiriodd Ms Essex gynhadledd ar 10 Gorffennaf yng Nghwmaman i ymchwilio i faterion o’r fath, ac ers hynny comisiynodd ddogfen ymgynghori, yn defnyddio themâu y gynhadledd, ymchwil a thrafodaeth ehangach mewn seminarau rhanbarthol gyda grë p cynrychioliadol o’r rhai sy’n gwarchod neu’n cyflwyno’r amgylchedd hanesyddol. Un o’r ymgynghorwyr yw Paul Loveluck, a fydd yn bresennol yng nghyfarfod 4 Rhagfyr ac yn gallu adrodd ar y cynnydd ar y fenter hon. Y bwriad yw y bydd Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y canlyniad yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac wedyn caiff papur ymgynghorol ei gyhoeddi.

Bydd y fenter hon yn llywio patrwm a chyfeiriad Cadw i'r dyfodol, ac felly nid yw'n fwriad i barhau ag unrhyw waith manwl pellach ar ei weithrediadau a'i strwythurau fel rhan o'r adolygiad Pum-mlynedd.

**Cydymffurfiad**

Mae'r papur er gwybodaeth ac ni chyfyd unrhyw faterion o ran cydymffurfiad.

**Gwaith i'r Pwyllgor Pwnc**

Gwahoddir y pwyllgor i nodi datblygiadau a derbyn adroddiad llafar ar hynt yr adolygiad sy'n mynd rhagddo.

**Pwynt Cyswllt**

Tom Cassidy, Prif Weithredwr Cadw

**ATODIAD**

**CRYNODEB GWEITHREDOL AC ARGYMHELLION**

1. Prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn yw, mewn perthynas ag amgylchedd hanesyddol Cymru:

a. Fod angen Cadw (neu gorff tebyg iddo) i helpu i adnabod, cynnal, cyflwyno, a datblygu'n gynaliadwy ayb. amgylchedd hanesyddol Cymru;

b. Fod gan Cadw gyflawniadau sylweddol i'w enw mewn amrywiol feysydd;

c. Fod Cadw wedi perfformio'n dda ers canol y 1990au yn erbyn y targedau a bennwyd iddo;

(d) Ymddengys fod angen adolygiad trylwyr o orchwylion Cadw a thargedau cysylltiedig. Dylent adlewyrchu ei strategaethau a'i swyddogaethau cyfredol a phrif bolisïau a themâu allweddol y Cynulliad yn well. Dylai Cadw wneud ymgais cliriach i sicrhau canlyniadau a ddymunir ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru yn ogystal ag allbynnau trefniadol;

(e) Byddai Cadw yn elwa o "berchnogaeth" weinidogol a gwleidyddol fwy o'i genhadaeth yn gyffredinol, tra ar yr un pryd yn diogelu'r ffordd anwleidyddol y mae'n gwneud penderfyniadau statudol a rhoi cyngor ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru; ac

(f) Mae ar Cadw angen rhai newidiadau i'w fodel trefniadol, ond nid newid strwythurol radical.

2. Argymhellaf:

1. **Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu datganiad cenhadaeth newydd hirdymor ar gyfer Cadw, i'w gadarnhau gan y Cynulliad yn dilyn ymgynghori eang. (paragraff 4.10)**

1. **fod y broses o gynhyrchu datganiad o fwriad a chynllun corfforaethol newydd tair blynedd yn cynnwys cynhyrchu cymysgedd newydd o ddangosyddion perfformiad sy'n canolbwyntio i raddau llai ar fesur prosesau ac sy'n cynnwys rhai canlyniadau a geisir ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. (4.16)**

2. **fod Cadw yn ystyried yr adroddiad hwn a'r ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori fel un mewnbwn i'w ddatblygiad polisi a rheolaeth. (5.6)**

4. **fod y swyddogaethau a gyflawnir gan Cadw ar hyn o bryd yn angenrheidiol. (6.11)**

5. **nad yw Cadw yn cyfuno â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. (6.21)**

6. **nad yw Cadw yn cyfuno ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. (6. 25)**

7. **y dylid ystyried yn ofalus fanteision ac anfanteision cyfuno â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru hyd Adolygiad Pum Mlynyddol cyfredol y Comisiwn Brenhinol. (6.29)**

8. **fod statws Corff Cyhoeddus a Noddir gan y**

**Cynulliad yn cael ei ddiystyru ar gyfer Cadw, o leiaf o ran y tymor byr a chanolig. (6.42)**

9. **peidio ag ystyried ymhellach y dewis o droi rhan o Cadw yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. (6.52)**

10. **nad model y sefyllfa bresennol (sef y model trefniadol asiantaeth weithredol fel y mae ar hyn o bryd) yw'r model priodol yn y tymor canol a'r hirdymor. (6.54)**

1. **y dylid newid statws trefniadol manwl Cadw er mwyn ei alluogi yn well i ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n hyrwyddo themâu allweddol a phrif strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r model trefniadol manwl fod yn un o'r canlynol:**

a. **Asiantaeth Weithredol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Bwrdd Polisi Gweinidogol**

b. **Adain neu adeiniau polisi confensiynol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os yn un adain, rhan ohoni i gadw'r brand Cadw gwerthfawr fel ei deitl. Os yn fwy nag un adain neu uned, un i'w galw'n Cadw; neu gymysgedd o adain gonfensiynol i arwain ar bolisi, gwaith achos statudol a chyngor strategol i Weinidogion ac eraill, ac asiantaeth weithredol o'r enw Cadw a fyddai'n gysylltiedig yn glos a fyddai'n arwain ar adeiladau mewn gofal. (6.55)**

12. **Pa union fodel bynnag o strwythur trefniadol a gaiff ei fabwysiadu ar gyfer Cadw, dylai rhan o leiaf o'r corff weithredu o dan y teitl "Cadw". (6.56)**

13. **Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan dderbyn cyngor gan Cadw, a thrwy ymgynghori â Phwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a rhanddeiliaid allanol, yn pennu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. (6.57)**